



Cynllunio Seilwaith  
Cenedlaethol  
Temple Quay House  
2 The Square  
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0303 444 5000  
e-bost : monaoffshorewindproject@  
planninginspectorate.gov.uk

At: Yr Ymgeisydd, Pob Parti â Buddiant,  
Personau yr Effeithir arnynt, Personau  
Categori 3

Ein Cyf: EN010137

Dyddiad: 19 Rhagfyr 2024

Annwyl Syr/Fadam

## **Deddf Cynllunio 2008 – adrannau 89 a 123 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 – Rheol 9**

### **Cais gan Mona Offshore Wind Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona.**

#### **Penderfyniad Trefniadol yn dilyn cais i wneud newidiadau i'r cais**

Rydym yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu o'r Penderfyniad Gweithdrefnol a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio (ExA) mewn perthynas â chyflwyniad cais yr Ymgeisydd i'r ExA dderbyn diwygiadau i'r cais uchod, a elwir yn gais newid.

#### **Y cais newid**

Yn dilyn cyflwyno Hysbysiad o Fwriad yr Ymgeisydd i gyflwyno Cais am Newid ar 1 Tachwedd 2024 [[CR1-001](#)] a llythyr yr ExA dyddiedig 8 Tachwedd 2024 [[PD-016](#)], cyflwynodd yr Ymgeisydd gais ffurfiol i wneud newidiadau i'r Cais uchod ar 15 Tachwedd 2024 [[CR1-015](#)]. I gefnogi'r cais, mae'r Ymgeisydd wedi cyflwyno cyfres o ddogfennau sydd wedi'u cyhoeddi o dan y tab 'Dogfennau' ar [wefan](#) y prosiect ac sydd i'w cael yn Llyfrgell yr Archwiliad o dan y cyfeirnodau sy'n dechrau gyda [CR1-\*\*\*].

Mae'r Cais am Newid yn cynnwys pedwar newid a nodir yn gryno isod, tra bod disgrifiad manylach a chyfiawnhad ar gyfer pob newid i'w gweld yn Adroddiad Cais am Newid (CRR) yr Ymgeisydd [[CR1-015](#)]

- Newid 1: Diwygio Terfynau'r Gorchymyn arfaethedig i gynnwys trac mynediad presennol ar gyfer mynediad dros dro yn ystod gwaith paratoi'r safle ar y tir a darn o dir i'r gorllewin o'r is-orsaf ar y tir ar gyfer mynediad adeiladu dros dro yn ystod gwaith paratoi'r safle ar y tir ac adeiladu'r safle is-orsaf ar y tir a gwaith amgylchynol.
- Newid 2: Diwygio a lledu ffordd fynediad adeiladu'r is-orsaf ar y tir i gynorthwyo symudiadau Llwyth Anrhanadwy Annormal (AIL), gan gynnwys diwygio Terfynau'r



Gorchymyn arfaethedig ac ehangu'r tir i'w ddefnyddio ar gyfer mynediad adeiladu dros dro o fewn Terfynau'r Gorchymyn.

- Newid 3: Diwygio Terfynau'r Gorchymyn arfaethedig i gynnwys tir ychwanegol gerllaw mynedfa adeiladu'r is-orsaf ar y tir yn bellmouth i wneud lle ar gyfer basn gwanhau draenio adeiladu dros dro.
- Newid 4: Diwygio a lledu Terfynau'r Gorchymyn arfaethedig i gynnwys tir sydd ei angen ar gyfer ardal o lawr caled yn ystod y cyfnod adeiladu i ganiatáu sefydlu'r ffordd fynediad parhaol.

## Rhesymeg a phenderfyniad yr ExA mewn perthynas â'r cais am newid

Yn dilyn llythyr yr ExA dyddiedig 8 Tachwedd 2024 mewn ymateb i'r cais am newid, mae'r Ymgeisydd bellach wedi cynnal ymgynghoriad anstatudol ar y newidiadau arfaethedig a chyflwynwyd adroddiad ymgynghori ar 3 Rhagfyr 2024 [[CR1-043](#)]. Trafodwyd y cais newid hefyd yng Ngwrandawriad Mater Penodol 6 (ISH6) ar 10 Rhagfyr 2024. Yn dilyn y trafodaethau hynny, cyflwynodd yr Ymgeisydd ragor o wybodaeth wedi hynny ar 18 Rhagfyr 2024 [[CR1-047](#), [CR1-048](#) a [CR1-049](#)].

Gan ystyried natur a graddfa'r newidiadau arfaethedig, mae'r Awdurdod Archwilio o'r farn bod yr ymgynghoriad anstatudol a gynhaliwyd yn ddull rhesymol a chymesur sydd wedi darparu ymgynghoriad ystyrlon ac sydd wedi rhoi dull priodol o ymgynghori i bartïon y gallai'r newidiadau arfaethedig effeithio arnynt.

Fel y cadarnhawyd yn y llythyr dyddiedig 8 Tachwedd 2024, mae'r ExA hefyd o'r farn, mewn perthynas â'r pedwar newid, nad yw'r un, o'u hystyried yn unigol neu wedi'u cyfuno, mor berthnasol fel eu bod yn gyfystyr â phrosiect gwahanol. Hefyd, nid yw'r newidiadau arfaethedig yn cael eu hystyried, yn unigol neu'n gronnol, i olygu bod y prosiect yn wahanol o ran ei natur neu ei sylwedd i'r hyn y gwnaed cais amdano'n wreiddiol.

Mewn perthynas â'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA), daw'r Ymgeisydd i'r casgliad nad yw'r newidiadau arfaethedig yn creu effeithiau arwyddocaol tebygol newydd neu wahanol. Rydym yn cytuno â'r farn hon ac yn nodi bod yr Ymgeisydd hefyd wedi cynnal ymgynghoriad anstatudol â'r rhanddeiliaid allweddol fel y nodir yn yr Adroddiad Ymgynghori.

Rydym hefyd wedi dod i'r casgliad na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn gwneud unrhyw wahaniaeth i ganlyniad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Yn wyneb yr uchod ac ar ôl ystyried yn ofalus y wybodaeth a gyflwynwyd, gan gynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad anstatudol, mae'r ExA wedi penderfynu derbyn y newidiadau arfaethedig i'r cais.

Fodd bynnag, wrth wneud hynny, mae'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd ddiwygio'r geiriad yn y Cynllun Rheoli Adeiladu Amlinellol (OCTMP) i gynnwys rheolaeth y byddai'r defnydd o'r trac mynediad a gynigir gan Newid 1A yn cael ei gyfyngu i uchafswm o 12 mis fel wedi'i nodi yn y CRR, fel yr ymgynghorwyd arno ac fel y nodwyd gan yr Ymgeisydd yn ISH6. Ymhellach, er bod yr OCTMP yn nodi'r nifer a'r mathau o gerbydau y disgwylir iddynt ddefnyddio'r trac mynediad hwn, mae'r ExA yn gofyn am gynnwys uchafswm maint y cerbyd.

Er enghraifft, gall ôl-gerbydau a chloddwyr amrywio o ran maint a byddai'r ExA yn disgwyl i'r manylion hyn gael eu cynnwys.

## **Camau Nesaf**

Gan fod yr ExA wedi penderfynu derbyn y cais am newid, bydd yr Archwiliad yn mynd rhagddo drwy ystyried y 'cais wedi'i newid'.

Os yn bosibl, dylai'r Ymgeisydd gyflwyno fersiynau diwygiedig o'r holl ddogfennau a chynlluniau a fyddai'n cael eu newid gan y Cais am Newid erbyn D6 (20 Rhagfyr 2024).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y llythyr hwn, cysylltwch â Thîm Achos Arolygiaeth Fferm Wynt Alltraeth Mona ar:

[monaoffshorewindproject@planninginspectorate.gov.uk](mailto:monaoffshorewindproject@planninginspectorate.gov.uk)

Yr eiddoch yn gywir

*Caroline Jones*

**Caroline Jones**  
**Aelod Arweiniol yr Awdurdod Archwilio**

Nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.  
Edrychwch ar ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.